

**Arolygiad o Ddarparwr
Gofal Iechyd Annibynnol
(Ile rhoddwyd rhybudd)
HealthFirst Consulting**

Dyddiad y arolygiad: 10 Mai 2016

Dyddiad cyhoeddi: 11 Awst 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd profiad y claf	6
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	9
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	11
6.	Y Camau Nesaf.....	12
	Atodiad A.....	13

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Prif ddiben AGIC yw:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sefydlu sut mae gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.¹

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau yn dilyn arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.

¹ Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. <http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd>

2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, rydym yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff (lle bo hyn yn briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle bo hynny yn briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan (lle bo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad drwy gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.² Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw welliannau eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau yn cynnig cipolwg o ba mor dda mae gwasanaethau yn bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd ar ddiwrnod yr arolygiad.

² Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Achosion o'r fath fydd rhai lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses diffyg cydymffurfio AGIC ar gael ar gais.

3. Cyd-destun

Mae HealthFirst Consulting wedi'i gofrestru i ddarparu clinig gofal iechyd rhywiol annibynnol (i gleifion dros 18 mlwydd oed) yn 4 Ivors Street, Fleur-de-Lys, Coed-duon, NP12 3RF. Cofrestrwyd y gwasanaeth yn gyntaf ar 3 Gorffennaf 2015.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un meddyg arbenigol a dau dderbynnydd rhan amser. Darperir amrywiaeth o wasanaethau, sy'n cynnwys y canlynol:

- Gwiriadau iechyd menywod
- Gwiriadau iechyd dynion
- Profi a thriniaeth ar gyfer heintiau a drosglwyddir yn rhywiol
- Cynllunio teulu
- Cwmsela
- Atgyfeiriadau at ymgynghorwyr arbenigol.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o'r gwasanaeth ar 10 Mai 2016.

4. Crynodeb

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi'i gynllunio, ei ddatblygu, ei adolygu a'i weithredu i sicrhau bod hawliau cleifion a'u rhyddid i wneud dewisiadau yn cael eu hybu a'u parchu. Gwelsom fod safbwyntiau cleifion wedi'u casglu a'u hystyried wrth adolygu a gwella gwasanaethau. Roedd yn amlwg bod cleifion yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio'u triniaeth, ac roedd gwasanaeth cwnsela yn cael ei gynnig yn rheolaidd i gefnogi lles corfforol a meddyliol y cleifion.

Yn gyffredinol, sicrhawyd AGIC bod HealthFirst Consulting yn darparu triniaeth a gofal diogel ac effeithiol i gleifion, yn seiliedig ar ganllawiau arfer gorau y cytunwyd arnynt ac sy'n cydymffurfio â rheoliadau diogelwch. Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer cofnodi ac archwilio ystod o arferion yn y gwasanaeth.

Roedd tystiolaeth amlwg bod y clinig yn monitro'i berfformiad er mwyn nodi lle y gallai wneud gwelliannau i driniaeth a gofal y cleifion. Gwelsom fod yr archwiliadau yn cynnwys canlyniadau a bod gwelliannau a nodwyd yn cael eu cofnodi. Nid oedd unrhyw bryderon o ran recriwtio, cadw na hyfforddiant staff.

Gwnaethom nodi'r meysydd canlynol i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn: dogfennau yn Gymraeg a chydsyniad wedi'i lofnodi ar gyfer archwiliadau ac ymchwiliadau. Er nad yw hyn wedi arwain at gyhoeddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, mae disgwyl i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn, gan y gallai methu â gwneud hynny arwain at AGIC yn cymryd camau, yn unol â'n proses diffyg cydymffurfio a gorfodaeth.

5. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Roeddem yn gallu cadarnhau bod y gwasanaeth wedi'i gynllunio, ei ddatblygu, ei adolygu, ac yn cael ei ddarparu i sicrhau bod hawliau cleifion a'u rhyddid i wneud dewisiadau yn cael eu hybu a'u parchu. **Gwelsom fod safbwyntiau cleifion wedi'u casglu a'u hystyried wrth adolygu a gwella gwasanaethau. Roedd yn amlwg bod cleifion yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio'u triniaeth, ac roedd gwasanaeth cwnsela yn cael ei gynnig yn rheolaidd er mwyn cefnogi lles corfforol a meddyliol y cleifion.**

Ymgysylltu â Dinasyddion ac Adborth (Safon 5)

Oherwydd natur gyfrinachol y clinig, ni wnaeth AGIC anfon holiaduron cleifion cyn yr ymweliad, na siarad â chleifion y diwrnod hwnnw. Fodd bynnag, roedd ffurflenni adborth cleifion a dderbyniwyd gan y practis yn awgrymu, heb eithriad, bod cleifion yn canmol eu profiad yn y gwasanaeth. Gwelsom fod blwch yn y dderbynfa ar gyfer casglu holiaduron a ddychwelwyd yn anhysbys. Gwnaeth y darparwr cofrestredig (person sy'n gyfrifol am y clinig yn gyffredinol – yn yr achos hwn, y meddyg arbenigol) ddatgan bod y canfyddiadau a gafwyd o'r ymatebion yn cael eu trafod yn ystod cyfarfodydd staff a gweithredwyd ar unrhyw feysydd sy'n peri pryder. Rhoddwyd enghreifftiau lle'r oedd newidiadau wedi cael eu gwneud mewn ymateb uniongyrchol i geisiadau gan gleifion.

Ymysg sylwadau'r cleifion roedd:

“Ardderchog”

“Gwasanaeth arbennig ac esboniadau da iawn”.

Cynllunio a Darparu Gofal (Safon 8)

Derbyniodd cleifion ofal cyfrinachol unigol o'r cysylltiad cyntaf. Er enghraifft, aseswyd anghenion cleifion yn y lle cyntaf drwy ddefnyddio rhif ffôn preifat sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r meddyg. Roedd hyn yn caniatáu i'r asesiad gael ei gynnal mewn modd cyfrinachgar. Yn ogystal â hyn, trefnwyd apwyntiad (os oedd angen) gan ddefnyddio enwau cyntaf cleifion yn unig.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion triniaeth pedwar o gleifion. Gwelsom fod pobl yn cael gwybodaeth ynglŷn â dewisiadau triniaeth a bod gweithdrefnau/canlyniadau yn cael eu hesbonio. Roedd cofnodion gofal a thriniaeth (ar ffurf nodiadau meddyg) yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r hyn a ddigwyddodd bob tro yr oedd claf yn ymweld â'r clinig.

Gwybodaeth a Chydsyniad Cleifion (Safon 9)

Gwelsom fod system bapur ar waith i gasglu gwybodaeth bersonol a meddygol gan gleifion. Gwelsom hefyd fod cynlluniau triniaeth yn glir ac yn cynnwys adroddiad parhaus o'r gofal a'r driniaeth a gynigir. Fodd bynnag, er bod cydsyniad llafar i driniaeth yn cael ei gofnodi, gwnaethom hysbysu'r darparwr cofrestredig am yr angen i wella'r broses cofnodi cydsyniad claf drwy sicrhau bod arwyddion cleifion yn cael eu casglu cyn archwiliadau ac ymchwiliadau.

Yr hyn mae angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig gael cydsyniad wedi'i lofnodi ar gyfer archwiliadau ac ymchwiliadau gan gleifion.

Urddas a Pharch (Safon 10)

Roedd polisïau preifatrwydd ac urddas, a chydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar gael i arwain staff yn eu gwaith. Roedd yr amgylchedd yn y clinig yn hwyluso darparu gofal preifat, cyfrinachol ac urddasol. Hefyd, roedd y ddau dderbynydd wedi cyflawni hyfforddiant hebryngwr, oherwydd cafwyd adegau pan oedd eu presenoldeb yn ystod archwiliadau agos cleifion yn ofynnol.

Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau cleifion yn cael eu trefnu mewn ffordd sy'n sicrhau na fyddant yn gorgyffwrdd. Roedd hyn yn golygu mai un claf yn unig oedd yn bresennol yn y clinig ar unrhyw un adeg. Gwnaeth hyn sicrhau bod cyfrinachedd, urddas a pharch cleifion yn cael eu cadw.

Roedd esgynfeydd cludadwy ar gael i gynorthwyo cleifion ag anawsterau symudedd i gyrraedd y toiled/cyfleusterau ymolchi.

Roedd llen breifatrwydd o amgylch y gwely archwilio, cynigiwyd gynau cleifion, a thynnwyd y bleindiau ar y ffenestri cyn cynnal unrhyw archwiliadau.

Cyfathrebu'n Effeithiol (Safon 18)

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ddarllen gopi o'r Datganiad o Ddiben a'r Canllawiau i Ddefnyddwyr Gwasanaeth. Mae'r rhain yn ddogfennau sy'n nodi telerau'r gwasanaeth a gynigir, y tîm staff, adolygiad o'r gwasanaeth, a chanlyniadau'r ymgysylltu â chleifion. Roedd y ddau'n cynnwys y wybodaeth ofynnol.

Roedd posteri a thafleini gwybodaeth wedi'u harddangos yn gyfrinachgar er mwyn hysbysu pobl ynglŷn â'r dewisiadau triniaeth gwahanol a gynigir gan y clinig. Dangosodd y darparwr cofrestredig enghraifft i ni o'r wybodaeth a roddir i gleifion yn

dilyn yr ymgynghoriad clinigol cyntaf, a oedd yn cynnig canllawiau ynghylch y dewisiadau triniaeth, costau, a sut i fynegi pryder pe byddai'r angen yn codi.

Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael i gleifion yn Gymraeg. Gwnaethom drafod hyn felly â'r darparwr cofrestredig, a rhoddwyd sicrwydd i ni y byddai dogfennau allweddol, megis taflenni cwyno a thafenni gwybodaeth/contract i gleifion, yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg ac ar gael i gleifion ar gais. Fe'n hysbyswyd hefyd bod cleifion a oedd yn gofyn am gyfieithwyr yn derbyn apwyntiadau pan fyddai modd cyflwyno gwasanaethau cyfieithu. Byddai hyn yn cael ei drafod yn ystod yr ymgynghoriad ffôn cyntaf.

Yr hyn mae angen ei wella

Mae angen i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth cleifion ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Yn gyffredinol, sicrhawyd AGIC bod HealthFirst Consulting yn darparu triniaeth a gofal diogel ac effeithiol i gleifion, sy'n seiliedig ar ganllawiau arfer gorau y cytunwyd arnynt ac sy'n cydymffurfio â gofynion diogelwch. Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer cofnodi ac archwilio ystod o arferion o fewn y gwasanaeth.

Gofal sy'n Ddiogel ac yn Glinigol Effeithiol (Safon 7)

Gwelsom fod y driniaeth a'r gofal yn seiliedig ar ganllawiau arferion gorau y cytunwyd arnynt. Roedd y gwasanaeth yn cael ei arwain gan feddyg arbenigol. Gwelsom hefyd fod taflenni gwybodaeth penodol yn cael eu rhoi i gleifion mewn cyswllt â'u triniaeth unigol pan fo angen.

Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed (Safon 11)

Roedd gan y gwasanaeth bolisi a gweithdrefn diogelu oedolion cyfredol ar waith. Fe'n hysbyswyd nad oedd unrhyw bryderon na digwyddiadau diogelu wedi bod hyd yn hyn. Roedd y darparwr cofrestredig wedi derbyn hyfforddiant mewn cyswllt â'r mater hwn.

Amgylchedd (Safon 12)

Roedd amgylchedd y clinig yn gywasgedig, ac yn cynnwys tair ystafell: derbynfa, ystafell glinigol ac ystafell ymolchi/toiled. Roedd yr adeilad yn lân, yn drefnus, ac wedi'i addurno i safon uchel. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal ac roedd larymau mwg a diffoddwyr tân ar gael i sicrhau amgylchedd diogel. Roedd hyn yn golygu bod y gwasanaeth yn pwysleisio diogelwch cleifion a staff. Roedd morthwyl ffenestri arbennig wedi'i leoli ym mhrif safle'r clinig er mwyn torri'r ffenestr gwydr dwbl mewn argyfwng. Cawsom ein sicrhau felly bod yr amgylchedd yn addas ac yn ddiogel i gleifion.

Atal a Rheoli Heintiau, a Dadheintio (Safon 13)

Roedd amserlenni ar gyfer glanhau ar waith, a gwelsom contractau yn ymwneud â gwastraff clinigol a chynnal a chadw'r cyfleusterau. Gwelsom gyfleusterau golchi dwylo a gel dadheintio llaw yn yr ystafell glinigol. Roedd yr holl offerynnau yn rhai untro, a oedd yn osgoi'r angen i sterileiddio offer.

Rheoli Meddyginiaethau (Safon 15)

Gwelsom fod systemau cadarn ar waith i leihau'r posibilrwydd o unrhyw gamgymeriad meddygol. Roedd polisïau a gweithdrefnau rheoli meddyginiaethau effeithiol ar gael. Gwnaethom drafod y broses ar gyfer rhagnodi, gweinyddu a chael

gwared ar feddyginiaeth a gwelsom fod y system yn ddiogel. Roedd cytundeb lleol ar waith rhwng fferylllydd y pentref a'r clinig. Defnyddiwyd yr oergell meddyginiaeth dim ond o bryd i'w gilydd ac felly byddai'n cael ei droi ymlaen 48 awr cyn danfon unrhyw feddyginiaeth i sicrhau bod yr oergell wedi cyrraedd y tymheredd priodol. Roedd cofnodion yn cael eu cynnal o ran tymereddau'r oergell. Cawsom ein sicrhau bod gweithdrefnau boddhaol ar waith i reoli meddyginiaethau yn ddiogel.

Ymdrin â Phryderon a Rheoli Digwyddiadau (Safon 23)

Dywedwyd wrthym fod y darparwr cofrestredig yn ymdrin â'r holl gwynion ni waeth a oeddent yn answyddogol neu'n ffurfiol. Roedd system ar waith i gofnodi manylion unrhyw ymchwiliad ynglŷn â chwyn, y canlyniad, a'r camau a ddilynwyd. Roedd y polisi cwyno ar gael yn yr ystafell aros ac yn cynnwys cyfeiriad AGIC perthnasol. Fodd bynnag, roedd y ddogfen yr oedd cleifion yn ei chymryd adref â nhw yn cynnwys cyfeiriad AGIC pe byddai arnynt ei angen. Ni chafwyd unrhyw gwynion o ran y gwasanaeth ers iddo agor.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Roedd tystiolaeth amlwg bod y clinig yn monitro'i berfformiad i nodi lle y gallent wneud gwelliannau i driniaeth a gofal y cleifion. Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd wedi cael eu cynnal ac roedd canlyniadau neu welliannau a nodwyd yn cael eu cofnodi o'r archwiliadau.

Fframwaith Llywodraethu ac Atebolrwydd (Safon 1)

Gwelsom fod amrywiaeth o archwiliadau misol wedi cael eu cynnal. Roedd y rhain yn ymwneud â threfniadau rheoli heintiau, preifatrwydd ac urddas cleifion, dogfennau cleifion, asesiadau risg, a ffurflenni adborth cleifion.

Nid oedd AGIC wedi derbyn unrhyw hysbysiadau Rheoliad 30/31 ers i'r gwasanaeth gael ei gofrestru yn 2015. (Hysbysiadau yw'r rhain ynglŷn ag unrhyw ddigwyddiadau anffodus.) Roedd trafodaeth â'r darparwr cofrestredig yn dangos nad oedd unrhyw ddigwyddiadau hysbysadwy wedi bod.

Roedd fersiwn gryno o bolisiâu a gweithdrefnau'r gwasanaeth ar gael ac yn cael ei chynnig i'r holl gwrselwyr neu therapyddion a oedd yn darparu gwasanaethau i gleifion yn y clinig. Defnyddiwyd hyn yn rhan o'r rhaglen ymsefydlu ar gyfer staff newydd hefyd.

Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cofnodi'n rheolaidd. Roedd ymarfer tân/ymarfer argyfwng ffug yn cael ei gynnal yn ystod pob cyfarfod staff. Roedd hyn yn caniatáu i'r systemau argyfwng gael eu profi a'u hadolygu.

Roedd y clinig yn cofnodi'r ystadegau gofynnol ar gyfer yr adran Iechyd Cyhoeddus ac roedd wedi datblygu system godio arbennig i leihau'r nifer o ystadegau sy'n dyblygu ystadegau ysbytai lleol a phractisau meddygon teulu.

Recriwtio i'r Gweithlu ac Arferion Cyflogaeth (Safon 24)

Gwnaethom edrych ar y dogfennau ar gyfer arfarniadau staff a chynlluniau datblygiad personol, a oedd yn bodloni'r safonau gofynnol. Nid oedd unrhyw arfarniadau wedi bod hyd yn hyn oherwydd bod y gwasanaeth ond wedi bod ar agor ers rai misoedd. Dywedodd y darparwr cofrestredig y byddai hyn yn dechrau pan oedd staff wedi bod yn gweithio yno am un flwyddyn.

Roedd hyfforddiant staff yn barhaus o fewn y clinig. Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant ar faterion megis rheoli heintiau, cyfrifoldebau hebryngwr, cyfrinachedd, a gweithio'n annibynnol. Nid oedd unrhyw bryder ynglŷn â lefelau staffio neu recriwtio na chadw staff.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella mewn cyswllt â HealthFirst Consulting. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir sut y bydd y gwelliannau a nodwyd yn HealthFirst Consulting yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus.

Atodiad A

Cynllun Gwella

Gwasanaeth:

HealthFirst Consulting

Dyddiad yr arolygiad: 10 Mai 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
Tudalen 7	Mae angen i'r darparwr cofrestredig gael cydsyniad wedi'i lofnodi ar gyfer archwiliadau ac ymchwiliadau gan gleifion.	Rheoliad 9(4)(b) Safon 9	Mae'r daflen cofrestru cleifion wedi'i diwygio i gynnwys cydsyniad wedi'i lofnodi.	Dr Lucy Jones	Cwblhawyd Gweler yr atodlen
Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol					
Tudalen 8	Mae angen i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth cleifion ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Safon 18	Mae gwybodaeth i gleifion wedi cael ei chyfieithu eisoes i'r Gymraeg.	Dr Lucy Jones	Cwblhawyd Gweler yr atodlen
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Nid oes angen gwelliannau.				

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Dr Lucy Jones

Teitl: Rheolwr

Dyddiad: 1/6/16